# Telerau ac Amodau Defnyddio Marc Ansawdd QAA ar gyfer Darparwyr yng Nghymru

## Rhagarweiniad

1 Mae QAA yn Asiantaeth Ansawdd sy'n uchel ei pharch ledled y byd; mae gan yr Asiantaeth brofiad heb ei ail o ddarparu sicrwydd a gwelliant ansawdd rheoleiddiol a chydweithredol diduedd. Rydym yn gweithio ar draws y DU ac yn rhyngwladol i sicrhau bod myfyrwyr a dysgwyr yn derbyn addysg o'r ansawdd uchaf posibl. I'r perwyl hwn, rydym yn trwyddedu Marc Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) i ddarparwyr cymwys, er mwyn sicrhau'r cyhoedd bod y darparydd wedi cael adolygiad gan QAA ac wedi cyflawni canlyniad llwyddiannus trwy broses sicrhau ansawdd annibynnol.

2 Rhestrir diffiniadau yn Atodlen 1.

3 Eiddo QAA yw pob Hawl Eiddo Deallusol ar gyfer Marc Ansawdd QAA. Mae defnyddio Marc Ansawdd QAA yn amodol ar ganiatâd ysgrifenedig gan QAA. Os caiff Marc Ansawdd QAA ei atgynhyrchu neu ei ddefnyddio fel arall gan unrhyw berson heb ganiatâd o'r fath, gall QAA geisio gorfodi eu hawliau dros eu heiddo trwy gamau cyfreithiol. Mae manylion am Bolisi Hawlfraint QAA i'w gweld ar wefan QAA.

4 Dim ond darparwyr sydd wedi cael adolygiad cadarnhaol gan y QAA all ddefnyddio Marc Ansawdd QAA, o dan drwydded ac yn unol â'r meini prawf a restrir isod ar gyfer cymhwyso.

5 Mae QAA yn cadw'r hawl i newid y telerau ac amodau hyn ar unrhyw adeg. Bydd newidiadau i delerau ac amodau Marc Ansawdd QAA yn cael eu cadarnhau i chi yn ysgrifenedig.

## Meini prawf cymhwyster

6 Dim ond darparwyr cymwys sydd wedi cael caniatâd gan QAA sy'n cael defnyddio ac arddangos Marc Ansawdd QAA. Dyma fanylion llawn y dyfarniadau a'r meini prawf ar gyfer darparwyr yng Nghymru:

| Dull adolygu QAA | Meysydd lle gwneir dyfarniadau | Ystod o ddyfarniadau sydd ar gael | Meini prawf ar gyfer ganiatad i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA |
|---|---|---|---|
| Adolygiad Gwella Ansawdd (Cymru) (dull adolygu sefydliadol cylchol) | A yw'r darparydd yn bodloni:<br>• gofynion y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol<br>• gofynion perthnasol y safonau sylfaenol ar gyfer y Fframwaith Asesu Ansawdd yng Nghymru. | Rhoddir un o dri dyfarniad ar gyfer pob maes:<br>• Yn bodloni'r gofynion<br>• Yn bodloni'r gofynion gydag amodau<br>• Ddim yn bodloni gofynion. | Yn bodloni gofynion yn y ddau faes. |
| Adolygiad Ansawdd Porth Cymru (dull adolygu dewisol at ddiben penodol) | Trefniadau'r darparydd yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddio sylfaenol perthnasol:<br>• pa mor ddibynadwy yw safonau academaidd a'r gallu i'w cymharu'n rhesymol â safonau a osodwyd ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU<br>• ansawdd profiad academaidd y myfyrwyr, gan gynnwys deilliannau myfyrwyr lle mae gan y darparydd hanes o gyflwyno addysg uwch | Rhoddir un o dri dyfarniad ar gyfer pob maes:<br>• Hyder<br>• Hyder cyfyngedig<br>• Dim hyder | Dyfarniad o hyder yn y ddau faes |
| Adolygiad Goruchwyliaeth Addysgol - Cydran lawn | P'un a yw'r darparydd wedi'i alinio'n llawn â'r Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector ar gyfer Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch. | Wedi'i alinio'n llawn â'r Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector ar gyfer Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch<br>Mae angen camau gweithredu i fod yn gwbl gyson â'r Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector ar gyfer Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch.<br>Nid yw wedi'i alinio. | Wedi'i alinio'n llawn â'r Egwyddorion y Cytunwyd arnynt gan y Sector ar gyfer Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adolygiad Goruchwyliaeth Addysgol - Cydran lawn Monitro blynyddol | P'un a oes cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflawni'r cynllun gweithredu. | Cynnydd canmoladwy Cynnydd derbyniol neu Gynnydd annigonol. | Cynnydd canmoladwy neu Cynnydd derbyniol. |
| Adolygiad Goruchwyliaeth Addysgol - Cydran graidd | A yw'r darparydd yn bodloni gofynion sicrhau ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer goruchwyliaeth addysgol. | Bodloni gofynion sicrhau ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer goruchwyliaeth addysgol. Angen camau gweithredu i fodloni gofynion sicrhau ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer goruchwyliaeth addysgol. Nid yw'n bodloni gofynion sicrhau ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer goruchwyliaeth addysgol. | Bodloni gofynion sicrhau ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer goruchwyliaeth addysgol. |
| Adolygiad Goruchwyliaeth Addysgol - Cydran graidd Monitro blynyddol | P'un a oes cynnydd yn cael ei wneud o ran cyflawni'r cynllun gweithredu. | Cynnydd canmoladwy Cynnydd derbyniol Gynnydd annigonol. | Cynnydd canmoladwy neu Cynnydd derbyniol. |

7 Pan fydd dau neu fwy o gyfranogwyr sy'n ddarparwyr cymwys yn uno, bydd QAA yn cadarnhau cymhwysedd y darparydd sydd newydd ei ffurfio i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA mewn ysgrifen. Os nad yw un neu fwy o'r darparwyr sy'n cymryd rhan ac sy'n uno yn gymwys i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA, gellir terfynu'r drwydded ar unwaith ar sail penderfyniad QAA nad yw'r darparydd newydd yn gymwys.

8 Pan fydd darparydd cymwys sy'n ymwneud â Marc Ansawdd QAA yn rhannu'n ddau endid ar wahân, bydd QAA yn cadarnhau cymhwysedd y naill ddarparydd a'r llall i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA mewn ysgrifen. Os nad yw un o'r darparwwyr, neu ddau ohonynt, bellach yn gymwys i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA, gellir terfynu'r drwydded ar unwaith.

## Cyhoeddi a defnyddio Marc Ansawdd QAA

9 Bydd y caniatâd a'r ffeiliau graffig yn cael eu hanfon trwy e-bost yn dilyn hysbysiad o gyhoeddi adroddiad cadarnhaol ar adolygiad QAA ar wefan QAA.

10 Gynted yr anfonir y ffeiliau graffig ar gyfer Marc Ansawdd QAA, bydd QAA yn rhoi trwydded anghyfyngedig, ddi-freindal, na ellir ei throsglwyddo i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA sy'n destun ein telerau ac amodau ar gyfer defnyddio. Bydd y drwydded yn parhau mewn grym o ddyddiad anfon y ffeiliau graffig, tra byddwch yn parhau i fod yn gymwys neu hyd nes bod y drwydded honno'n cael ei thynnu'n ôl gan QAA, pa un bynnag sydd gynharaf.

11 Gallwch ddefnyddio Marc Ansawdd QAA ar bob math o gyfathrebiadau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chi a rhaglenni a gyflwynir gennych, fel y nodir yn adolygiad QAA ac sy'n destun y telerau ac amodau hyn. Wrth ddefnyddio Marc Ansawdd QAA, rhaid i chi gydymffurfio â'r manylebau a nodir yn Atodiad 2.

## Camddefnydd o Farc Ansawdd QAA

12 Rhaid i chi ddefnyddio Marc Ansawdd QAA mewn perthynas â'ch statws adolygu cymwys yn unig, ac yn unol â thelerau ac amodau'r drwydded hon (gan gynnwys y manylebau a roddir yn Atodiad 2), ac nid mewn unrhyw ffordd a fydd yn arwain y cyhoedd i gredu bod QAA yn eich cymeradwyo chi neu rannau o'ch gweithrediad nad ydynt wedi bod yn destun adolygiad gan QAA.

13 Ni chewch wneud cais am, na chael cofrestru Marc Ansawdd QAA ar gyfer unrhyw nwyddau neu wasanaethau mewn unrhyw wlad.

14 Ni chewch wneud cais am, na chael, cofrestru unrhyw nod masnach neu nod gwasanaeth mewn unrhyw wlad sy'n cynnwys logo QAA, nod gair QAA neu Farc Ansawdd QAA.

15 Ni chaniateir is-drwyddedu eich hawl i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA o dan y drwydded hon. Ni chaniateir i unrhyw un o'ch partneriaid ddefnyddio Marc Ansawdd QAA oni bai eu bod wedi cael caniatâd gan QAA ar ôl bodloni'r meini prawf cymhwysedd trwy adolygiad cymwys ar wahân i'ch un chi.

16 Mae'n bosibl y byddwn yn tynnu'r drwydded i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA yn ôl yn yr amgylchiadau canlynol:

i. Os defnyddir Marc Ansawdd QAA mewn unrhyw ffordd sydd, yn ein barn ni, yn effeithio'n negyddol ar QAA neu enw da QAA
ii. Os yw ei ddefnydd yn mynd yn groes i'r telerau ac amodau hyn
iii. Os canfyddir bod unrhyw ddarparwyr yn defnyddio Marc Ansawdd QAA heb drwydded.

17 Bydd hysbysiad o dynnu'n ôl y drwydded i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA yn cael ei wneud trwy e-bost at gynrychiolydd y darparydd yn gofyn am gael gwared ar bob cyfeiriad at Farc Ansawdd QAA o wefan y darparydd ac unrhyw ddeunyddiau electronig neu gopi caled gan gynnwys unrhyw arddangosfeydd o fewn safle'r darparydd. Bydd methu â chydymffurfio â hysbysiad o dynnu'n ôl y drwydded i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA yn arwain at gychwyn achos cyfreithiol yn erbyn y darparydd. Dylech chi ar unwaith hysbysu QAA, gan roi manylion llawn, pan ddaw i'ch sylw fod unrhyw drydydd parti'n camddefnyddio Marc Ansawdd QAA, neu'n bygwth gwneud hynny, gan gynnwys os yw'n ddarparydd arall.

## Atebolrwydd

18 I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, ni fyddwn yn atebol i chi am unrhyw gostau, treuliau, colled neu ddifrod (boed yn uniongyrchol, anuniongyrchol neu ganlyniadol, a boed yn economaidd neu o fath arall) sy'n deillio o'ch defnydd o'r hawliau neu unrhyw derfynu'r hawliau a roddir i chi o dan, neu mewn cysylltiad â'r telerau ac amodau hyn. Rydych hefyd yn cytuno nad oes gennym unrhyw atebolrwydd am gynnwys eich sianeli cyfathrebu nac unrhyw ganlyniadau cyfreithiol sy'n deillio ohonynt neu o'ch defnydd o farc

ansawdd QAA arnynt. Felly, dylech fodloni eich hun bod eich cyfathrebiadau'n cyflawni'r holl ddibenion a fwriadwyd, gan gynnwys dibenion cyfreithiol.

19 Byddwch yn indemnio QAA rhag pob atebolrwydd, cost, treuliau, difrod neu golled (gan gynnwys unrhyw golledion canlyniadol uniongyrchol neu anuniongyrchol, colli elw, colli enw da a phob llog, cosb, cost a threuliau cyfreithiol a phroffesiynol rhesymol eraill) a ddioddefir neu a achosir gennym yn sgil neu mewn cysylltiad â'ch arfer o'ch hawliau a roddir o dan y drwydded hon neu unrhyw achosion o weithredu'n groes i'r telerau ac amodau hyn gennych chi.

20 Ni fydd dim yn y telerau ac amodau hyn yn cael yr effaith o eithrio neu gyfyngu ar unrhyw atebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol a achosir yn sgil esgeulustod neu dwyll.

## Y gyfraith berthnasol

21 Bydd y telerau ac amodau hyn ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio ohonynt neu mewn cysylltiad â nhw neu eu pwnc neu eu ffurfiant (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau anghytundebol) yn cael eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr, ac mae'r naill ochr a'r llall trwy hyn yn cytuno'n ddiwrthdro y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth unigryw i glywed anghydfodau neu hawliadau o'r fath.

## Gwybodaeth nad yw'n dod o dan y drwydded hon

22 Os ydych chi am ddefnyddio unrhyw un o logos QAA neu wybodaeth sydd y tu allan i gwmpas y drwydded hon, rhaid i chi wneud cais i QAA a chael trwydded ar wahân gan QAA ar gyfer defnydd ychwanegol o'r fath.

23 Mae unrhyw ddefnydd o ddeunyddiau hawlfraint QAA, gan gynnwys graffeg a logos, yn dod o dan ein Polisi Hawlfraint, sydd ar gael ar ein gwefan.

24 Dylid gwneud ceisiadau i ddefnyddio unrhyw ddeunydd, graffeg a logos hawlfraint QAA yn ysgrifenedig i: marcoms@qaa.ac.uk

## Cysylltu â ni

25 Am gymorth a chyngor ar ddefnyddio Marc Ansawdd QAA, cysylltwch â ni yn: nations@qaa.ac.uk

## Atodlen 1: Diffiniadau

**"Darparydd Cymwys"** yw darparydd sy'n gymwys i ddefnyddio Marc Ansawdd QAA gan eu bod yn bodloni'r meini prawf o ran cymhwyso.

**“Hawliau Eiddo Deallusol”** yw pob hawl i eiddo deallusol a diwydiannol gan gynnwys patentau, gwybodaeth arbenigol, nodau masnach cofrestredig, dyluniadau cofrestredig, modelau cyfleustodau, ceisiadau am unrhyw un o'r uchod a hawliau i wneud cais amdanynt. Mae hyn yn cynnwys hawliau dylunio heb eu cofrestru, nodau masnach heb eu cofrestru, hawliau i atal pobl rhag eu defnyddio ar gyfer cystadleuaeth annheg, hawlfraint, hawliau cronfa ddata, hawliau topograffeg ac unrhyw hawliau eraill mewn unrhyw ddyfais, darganfyddiad neu broses, ym mhob achos yn y Deyrnas Unedig a phob gwlad arall yn y byd ac ynghyd â phob adnewyddiad ac estyniad.

**“Trwydded”** yw'r drwydded i ddefnyddio'r deunyddiau sy'n destun y telerau ac amodau defnyddio hyn.

**“Darparydd”** yw unrhyw ddarparydd addysg uwch yng Nghymru.

**“Logos QAA”** yw unrhyw symbolau, dyluniadau neu eiriau a fabwysiadwyd gan QAA i adnabod eu cynhyrchion neu eu gwasanaethau.

**“Marc Ansawdd QAA”** yw'r marc a roddir i ddarparwyr sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cymhwyso o dan y Telerau ac Amodau Defnyddio hyn.

**“Nodau masnach QAA”** yw unrhyw symbol, marc neu air sydd wedi'i gofrestru'n gyfreithiol o dan unrhyw awdurdodaeth neu a sefydlwyd trwy ddefnydd fel rhai sy'n cynrychioli QAA neu gynhyrchion neu wasanaethau QAA.

# Atodlen 2: Manylebau ar gyfer defnyddio Marc Ansawdd QAA

**Fformat**

Byddwn yn cyflenwi darparwyr cymwys â ffeiliau graffig ar ffurf EPS, JPEG a PNG.

**Maint, lliw a gosodiad**

Ni ddylid addasu na newid cyfrannedd a safle cymharol y cydrannau sy'n ffurfio Marc Ansawdd QAA mewn unrhyw ffordd. Ni ddylid defnyddio'r Marc yn llai na'r maint lleiaf o 50mm o led (189px).

Rhaid i Farc Ansawdd QAA ymddangos fel y'i cyflenwyd bob amser, yn ei liwiau gwreiddiol. Cyflenwir y Marc mewn lliw llawn, gwyn a llwyd tywyll. Byddai'n well gennym pe byddech yn defnyddio'r Marc lliw llawn lle mae'r dyluniad yn caniatáu. Ni chaniateir defnyddio lliwiau eraill yn eu lle. Gellir caniatáu gwyro oddi wrth y dull hwn mewn amgylchiadau arbennig, a hynny dim ond gyda chymeradwyaeth benodol ymlaen llaw gan QAA.

Gadewch gymaint o le â phosibl i Farc Ansawdd QAA bob amser er mwyn iddo ymddangos yn amlwg heb ymyrraeth gan destun neu ddeunydd graffig arall. Ni ddylai safle'r Marc Ansawdd fod yn llai na 10mm o ymyl tudalen, ac o leiaf 10mm o unrhyw destun a graffeg arall.

Lle mae Marc Ansawdd QAA yn cael ei arddangos ochr-yn-ochr â graffeg QAA arall - fel Bathodyn Aelodaeth QAA - dylid arddangos yr holl graffeg yr un maint ac mewn cyfrannedd â'i gilydd.

**Hygyrchedd a 'thestun amgen'**

Er mwyn gwella hygyrchedd, lle defnyddir Marc Ansawdd QAA ar wefannau neu lwyfannau digidol eraill, rydym yn cynghori defnyddio'r 'testun amgen' canlynol: **Marc Ansawdd QAA.**

**Hyperddolenni**

Mae'n amod o'r drwydded hon, lle defnyddir Marc Ansawdd QAA ar wefan, fod yna hefyd hyperddolen yn uniongyrchol i dudalen adolygiad y darparydd ar wefan QAA: Adroddiadau Sicrhau Ansawdd.

Er mwyn gweithredu hyn mewn ffordd sy'n ymgorffori arfer gorau i wella hygyrchedd, rydym yn cynghori arddangos y testun canlynol o dan Farc Ansawdd QAA a gosod yr hyperddolen yn y testun hwn, fel y dangosir yma: **Darllenwch ein hadroddiad diweddaraf o adolygiad QAA.**

Cyhoeddir URL eich adroddiad, ynghyd â'r ffeiliau graffig, yn yr e-bost a anfonir ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ar eich adolygiad.

**Marc Ansawdd QAA**

**Lliw** **Gwyn**

**Fformat a argymhellir**

- Gwefan/digidol: PNG neu JPEG
- Deunydd wedi'i argraffu: EPS

**Maint lleiaf a ganiateir**

- lled 50mm (189px)

**Sylwer:** Mae perchnogaeth Marc Ansawdd QAA, y gwaith celf, ffeiliau electronig a phob atgynhyrchiad ohono yn parhau i fod yn hawlfraint ac yn eiddo QAA.

## Cysylltu â ni

Am gymorth a chyngor ar ddefnyddio Marc Ansawdd QAA, cysylltwch â QAA yn: Nations@qaa.ac.uk

Cyhoeddwyd – Awst 2026

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2026
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk